

# Llyfryn Eiconau

***'Addasu Technoleg, Technoleg Hygyrch'***

Prosiect Ymchwil 2020-2021

## *Trosolwg o’r Prosiect*

Mae pandemig COVID-19 wedi golygu bod llawer mwy o bobl wedi mynd i ddibynnu ar dechnoleg. Mae hyn yn golygu bod technoleg bellach yn brif ddull cyfathrebu i lawer o bobl sy’n defnyddio offer fel Zoom, Twitter, FaceTime, a negeseuon WhatsApp. Ond nid yw pawb wedi gallu cyrchu a defnyddio’r offer cymorth a chyfathrebu ar-lein hyn, nac wedi dymuno gwneud hynny.

Bydd y ddibyniaeth hon ar dechnoleg yn sicr yn parhau yn y tymor byr ond bydd methu cael mynediad at gynnwys digidol ac ar-lein yn parhau i fod yn broblem yn y dyfodol wrth i ragor o wasanaethau hanfodol symud ar-lein. Mae helpu pobl sydd am fynd ar-lein i allu gwneud hynny mewn modd annibynnol a hyderus nawr yn bwysicach nag erioed. Fodd bynnag, mae anawsterau yn parhau, hyd yn oed ymhlith y rhai sydd â rhywfaint o sgiliau digidol.

Dangosodd astudiaeth ddiweddar a gwblhawyd gan rai o aelodau’r tîm ymchwil fod hyd yn oed y bobl hŷn sy’n berchen ar ddyfeisiau clyfar ac sy’n defnyddio technoleg y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd wedi wynebu rhwystrau a gafodd effaith negyddol ar sut roedden nhw’n defnyddio technoleg. Mae’n hanfodol bwysig, felly, ein bod ni’n mynd i’r afael â rhwystrau rhag defnyddio technoleg, er mwyn lleihau’r gagendor digidol hwn a chynyddu’r defnydd o dechnoleg. Un o’r atebion o ran mynd i’r afael â hyn yw dylunio - a gweithio gyda phobl hŷn i gyd-ddylunio dyfeisiau digidol/cymwysiadau cymdeithasol sy’n bodloni eu hanghenion.

Mae cyfrifiaduron llechen a ffonau clyfar yn llwybr fforddiadwy a hygyrch i’r byd digidol. Fodd bynnag, nid yw’r rhyngwynebau hyn bob amser yn hawdd eu defnyddio, ac maen nhw’n gallu dychryn pobl. Er bod yna apiau sy’n symleiddio sgrîn y ffôn clyfar (e.e. Grand Launcher), swyddogaethau cyfyngedig sydd ganddynt: e.e. botwm SOS, neges SMS a thortsh, ac nid ydynt yn cynrychioli anghenion pobl hŷn. Penderfynodd y prosiect Addasu Technoleg geisio gweithio gyda phobl hŷn i ddylunio cymhwysiad oedd yn bodloni eu hanghenion ac a fyddai’n helpu i feithrin hyder.

Cafodd y syniad ar gyfer y llyfryn hwn ei gynnig a’i ddatblygu gan y bobl hŷn y buom ni’n gweithio gyda nhw, a oedd yn teimlo bod deall ystyr yr eiconau cyffredin ar ffonau clyfar yn bwysig.

# *Tabl Cynnwys*




| | |
|---|---|
| Trosolwg o’r Prosiect | Tudalen 2 |
| Pwrpas y llyfryn hwn | Tudalen 4 |
| Adrannau Eiconau – Disgrifiad | Tudalen 5 |
| Adran 1: Cyfathrebu | Tudalen 6 |
| Adran 2: Ap y GIG/Covid | Tudalen 7 |
| Adran 3: Cyfryngau Cymdeithasol | Tudalen 8 |
| Adran 4: Adloniant | Tudalen 9 |
| Adran 5: Teithio | Tudalen 10 |
| Adran 6: Newyddion | Tudalen 11 |
| Adran 7: Gweithgareddau Cyffredinol o ddydd i ddydd | Tudalen 12 |
| Adran 8: Chwaraeon | Tudalen 14 |
| Adran 9: Ffordd o Fyw | Tudalen 15 |
| Adran 10: Eiconau Cyffredinol a welir ar Ffonau Clyfar | Tudalen 16 |



## *Pwrpas y Llyfryn hwn*

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys ac yn cyflwyno rhai o'r 'Apiau' a'r eiconau mwyaf cyffredin sydd ar gael i ddefnyddwyr ffonau clyfar.

Gall yr eiconau edrych ychydig yn wahanol ar wahanol fodelau o ffonau clyfar. Fodd bynnag, mae'r lluniau o'r eiconau yn y llyfryn hwn yn edrych yn debyg iawn i'r eiconau a fydd ar gael i chi.

## *Adrannau Eiconau – Disgrifiad*

Mae sawl Eicon/Ap safonol ar gael i’w lawrlwytho trwy:

**Siop Google Play**

**Siop Apiau Apple**

Mae Dyfeisiau Android yn defnyddio siop Google Play.

Mae Dyfeisiau Apple yn defnyddio siop apiau Apple.

Mae’r adrannau canlynol yn dangos gwahanol Apiau sydd naill ai wedi eu gosod yn awtomatig ar eich ffôn neu sydd ar gael i’w lawrlwytho o un o’r ddwy siop uchod.

## *Adran 1* ***Cyfathrebu***

Mae’r holl eiconau isod yn cynrychioli gwahanol ddulliau cyfathrebu y cewch hyd iddyn nhw ar eich ffôn clyfar.

**Ffôn**
Gwneud galwad ffôn.

**Messenger**
Anfon neges trwy Facebook Messenger.

**WhatsApp**
Gwneud galwad ffôn, gyrru neges neu wneud galwad fideo.

**Neges Destun**
Anfon negeseuon testun (SMS).

**E-bost (Outlook)**
Mynediad at eich negeseuon e-bost trwy eich cyfrif Hotmail.

**Gmail (Google)**
Mynediad at eich negeseuon e-bost trwy eich cyfrif Google.

# *Adran 2* ***Ap y GIG / Covid***

Mae'r holl eiconau isod yn cynrychioli gwahanol Apiau y GIG/Covid sydd ar gael i'w lawrlwytho trwy siop Google Play neu siop Apple.

**Y GIG (Tracio ac Olrhain)**
Gwirio cyfyngiadau Covid ar hyn o bryd
Cael gwybod am drefniadau profi
Mewngofnodi mewn lleoliad
Rheoli olrhain cysylltiadau.

**Y GIG**
Gwirio cyfyngiadau Covid ar hyn o bryd
Cael gwybod am drefniadau profi
Mewngofnodi mewn lleoliad
Rheoli olrhain cysylltiadau.

## *Adran 3* ***Cyfryngau Cymdeithasol***


Mae'r eiconau isod yn cynrychioli'r gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol y gallai fod gennych chi broffil arnyn nhw.

**Facebook**
Mynediad i'ch cyfrif Facebook.

**Instagram**
Rhannu ffotograffau o'ch bywyd trwy Instagram.

**LinkedIn**
Cysylltu â Busnesau ac Ymchwilwyr.

**Twitter**
Dilyn enwogion, sefydliadau a phobl gyffredin.



## *Adran 4* ***Adloniant***

Mae'r eiconau isod yn cynrychioli'r gwahanol blatfformau adloniant sy'n caniatáu i chi wylio a gwrando ar ystod eang o gynnwys.

**BBC iPlayer**
Gwylio teledu byw o sianeli'r BBC neu wylio rhaglenni rydych wedi'u colli.

**YouTube**
Chwilio am fideos, cerddoriaeth a ffrydiau byw a'u gwylio.

**BBC Sounds**
Gallwch wrando ar orsafoedd radio lleol a chenedlaethol y BBC yma.

**Audible**
Gwrando ar lyfrau sain. (Mae gofyn tanysgrifio.)

**Fire TV** Mae hwn yn caniatáu i chi ddefnyddio eich ffôn neu eich cyfrifiadur llechen fel teclyn rheoli chwaraewyr cyfryngau ffrydio Fire TV o bell.

**Spotify**
Gwrando ar wahanol artistiaid cerddoriaeth a Phodlediadau.

# *Adran 5* ***Teithio***

Mae'r eiconau hyn yn cynrychioli gwahanol apiau trafnidiaeth a theithio y gallwch eu lawrlwytho ar ffonau clyfar. Rhai enghreifftiau yn unig yw'r rhain, mae llawer mwy o apiau rhanbarthol ar gael.

**Gwasanaeth Tacsi**
Gallwch archebu tacsis a'u tracio gan ddefnyddio'r ap hwn. Mae'n ddefnyddiol gweld pa mor bell i ffwrdd ydyn nhw.

**Trainline**
Gall Trainline eich helpu i dracio eich trên (e.e. oedi/rhif platfform).

**Metro**
Mae ap gwasanaeth rheilffordd Metro yn Newcastle yn gymorth i dracio trafnidiaeth gyhoeddus leol.

**TFL (Transport For London)**
Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr holl wasanaethau i'r rhai sy'n teithio yn Llundain, trwy ap TFL.

**Gwasanaeth Bws**
Yr wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaethau Bws yng Nghaerdydd.

**Gwasanaeth Tacsi**
Tracio tacsis yng Nghaerdydd trwy Ap Premiere Taxi.

**Rheilffyrdd Cenedlaethol**
Gall yr Ap hwn eich helpu i dracio eich trên (e.e. oedi/rhif platfform).

# *Adran 6* **Newyddion**

Gallwch gael yr holl gynnwys fyddai yn eich papurau newydd lleol a chenedlaethol ar eich ffôn trwy apiau newyddion penodol.

**Papur Newydd y Guardian**
Mynediad at newyddion Byd-eang.

**Newyddion y BBC**
Mynediad at newyddion Byd-eang.

**Papur Newydd y Daily Mail**
Mynediad at newyddion Byd-eang.

**Papur Newydd y Newcastle Chronicle**
Mynediad at newyddion lleol o Newcastle a Gogledd-ddwyrain Lloegr.

## *Adran 7 **Gweithgareddau cyffredinol o ddydd i ddydd***

Mae'r eiconau isod yn cynrychioli gwahanol swyddogaethau y gallech fod am eu defnyddio neu gamau y gallech fod am eu cymryd.

**Camera**
Tynnu llun ar eich ffôn.

**Cyfrifiannell**

**Gosodiadau Ffôn**
Gosodiadau eich ffôn. Newid tôn galwad ffôn/neges, cynllun lliwiau a maint y testun.

**Google**
Chwilio'r rhyngrwyd.

**Siop Google Play**
Lawrlwytho Ap newydd o siop Google Play – os oes gennych ffôn Android.

**Google Photos (Android)** Gall Google gadw eich lluniau fel bod modd eu gweld ar bob dyfais y byddwch chi'n mewngofnodi iddi – Cyfrifiadur, Ffôn neu Gyfrifiadur Llechen.

**Apple Photos (iPhone/iPad)** Gall Apple gadw eich lluniau fel bod modd eu gweld ar bob dyfais y byddwch chi'n mewngofnodi iddi – Cyfrifiadur, Ffôn neu Gyfrifiadur Llechen.

## *Adran 7 (parhad)*

**Cloc**
Gosod Larymau ar eich ffôn.

**Tortsh**
Gallwch ddefnyddio fflach y camera fel tortsh.

**Pad Nodiadau**
Gallwch ddefnyddio'r Ap hwn i ysgrifennu nodiadau/ negeseuon atgoffa ar eich ffôn.

**Siop Apple**
Gall defnyddwyr iPhone lawrlwytho Apiau o Siop Apple.

**DPD**
Tracio eich parseli sy'n cael eu dosbarthu gan DPD a newid neu ad-drefnu'r amser, y dyddiad neu'r cyfeiriad dosbarthu.

**Hermes**
Tracio eich parseli sy'n cael eu dosbarthu gan Hermes.

# *Adran 8* ***Chwaraeon***

Os ydych chi'n ymddiddori mewn chwaraeon, gallwch chi gael yr wybodaeth ddiweddaraf am eich hoff dîm pêl-droed.

**Ap Dinas Caerdydd**
Y newyddion diweddaraf am glwb pêl-droed Dinas Caerdydd.

**Ap NUFC**
Y newyddion diweddaraf am glwb Newcastle United trwy'r Ap Cefnogwyr.

## *Adran 9* ***Ffordd o Fyw***

Mae digonedd o apiau defnyddiol ar gael pan fyddwch yn ymweld â dinas newydd, neu os byddwch am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a gweithgareddau newydd.

**Dinas Newcastle**
Ap ffordd o fyw ar gyfer trigolion Newcastle ac ymwelwyr â'r ddinas.

**Y Loteri Genedlaethol**
Chwarae'r Loteri Genedlaethol a gwirio eich rhifau.

## *Adran 10* ***Eiconau Cyffredinol a welir ar Ffonau clyfar***

Ar bob math o ffonau clyfar, mae yna eiconau cyffredinol sydd i'w gweld ar y sgrîn o bryd i'w gilydd. Ceir trosolwg o'r eiconau hyn isod.

**Modd awyren/hedfan**
Mae hwn yn atal signal amledd radio'r ddyfais ac yn diffodd pob gwasanaeth data ac analog.

**Peidiwch â Tharfu** Drwy ddewis yr eicon hwn, byddwch yn distewi'r ffôn ac yn atal pob hysbysiad nes bod y nodwedd yn cael ei diffodd eto.

**Data Symudol** Mae'r eicon hwn yn dangos pan fydd eich data symudol ar waith. Mae'n ddefnyddiol pan fyddwch allan o gyrraedd WIFI.

**Wifi**
Mae'r eicon hwn yn dangos eich bod wedi cysylltu â'r Rhyngrwyd trwy wasanaeth WiFi (di-wifr).

**Bluetooth** Mae'r eicon hwn yn dangos bod darpariaeth 'Bluetooth' wedi'i galluogi. Bydd angen ei droi ymlaen i gysylltu â dyfeisiau Bluetooth.

**Cloi Cylchdroi Sgrîn**
Pan fydd hwn ar waith, ni fydd eich sgrîn yn cylchdroi rhwng 'ar draws' ac 'ar i fyny'.

## *Persbectif y defnyddiwr*

Roedd prosiect 'Addasu Technoleg, Technoleg Hygyrch' yn cynnwys lleisiau a barn defnyddwyr ledled Cymru a Newcastle. Dyma beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud:



## *Persbectif y Tîm Ymchwil*

Roedd tîm ymchwil rhyngddisgyblaethol yn cynnwys arbenigwyr ac arbenigeddau ym meysydd gerontoleg, gerontechnoleg, unigrwydd, cyfrifiadureg a Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron (HCI). Dyma beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud:

**Aelod o'r Tîm Ymchwil, Cyfrifiadureg**

"Fel tîm sy'n canolbwyntio'n sylweddol ar gyfrifiadureg, cawson ni fudd o weithio gyda'r tîm gwyddor cymdeithasol wrth i'w gwaith ymchwil nhw ddod ynghyd ac mae'r cysylltiadau sydd ganddyn nhw gyda'r cyfranogwyr wedi caniatáu i ni ddod i mewn i weithdai a chael persbectifau gwahanol."

**Aelod o'r tîm Ymchwil**

"Y defnyddiwr yw'r arbenigwr, dyna'r allwedd i mi bob amser, rwy'n credu. Mae'n rhaid i ni ddysgu oddi wrthyn nhw neu fel arall fydd dim yn newid."

**Sefydliad Partner**

Mae wedi bod yn ddiddorol cael gwybod beth yn union sy'n achosi trafferth i bobl ac rwy'n credu bod hynny wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi a bydd yn gwella'r ffordd rydyn ni'n cefnogi pobl yn y tymor hir, yn fy marn i.

**Aelod o'r tîm ymchwil**

Rwy'n credu mai un o'r gwersi rwyf fi wedi'u dysgu yw bod angen bod mor hygyrch â phosibl i'r cyfranogwyr, felly y math yna o ddull casglu data siŵr o fod.

Yr iaith rydyn ni'n ei defnyddio a hefyd y sesiynau anffurfiol, i mi, roeddwn i'n gweld bod hynny'n fantais wirioneddol oherwydd roeddwn i'n teimlo ein bod ni'n un tîm mawr, yn hytrach na ni a nhw.

Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid a chyfranogwyr sydd wedi cyd-ddylunio a chydgynhyrchu'r llyfryn hwn ac wedi chwarae rhan weithredol yn y gweithdai ar-lein.

**Gwefan Prosiect Ymchwil Addasu Technoleg, Technoleg Hygyrch:**

**www.healthwellbeing.open.ac.uk**

Sganiwch y côd QR i weld y prosiect hwn ar-lein

**Cewch ragor o wybodaeth ar Facebook: facebook.com/AdjustTechAcessibleTech**